

**Economeg iechyd ar gyfer ymarfer ac ymchwil
i Iechyd Cyhoeddus
Cwrs deuddydd ym Mhrifysgol Bangor 15 - 17 Ebrill 2014**



Cyfanswm y gost £650

Yn cynnwys prydau bwyd a llety o 4yp Dydd Mawrth 15 Ebrill i 2.45yp Dydd Iau 17 Ebrill yn [Y Ganolfan Rheolaeth, Bangor](#).

Mae lle ar y cwrs gyda llety ar gael i 30 ynghyd â lle gyda chymhorthdal i 5 o aelodau staff Iechyd Cyhoeddus Cymru heb lety.

I gofrestru a thalu, cysylltwch â:

Mrs Ann Lawton
Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso
Meddyginiaethau
Prifysgol Bangor
Neuadd Ardudwy
Bangor. LL57 2PZ
Ffôn: 01248 382153
E-bost: cheme@bangor.ac.uk

I dalu gyda cherdyn credyd, cliciwch [yma](#).

Sylwer mai 28 Mawrth 2014 yw'r dyddiad olaf i gofrestru

(Codir tâl o 10% o'r ffi am ganslo cyn 28 Mawrth 2014, a 50% o'r ffi am ganslo ar ôl y dyddiad hwnnw)

Cyfarwyddwr y cwrs: Yr Athro Rhiannon Tudor-Edwards gyda chefnogaeth gan siaradwyr gwadd.

Cefndir

Mae'r cwrs byr newydd hwn yn seiliedig ar ugain mlynedd o'n profiad yn dysgu economeg iechyd i ymarferwyr ym maes iechyd cyhoeddus a phobl sy'n gwneud gwaith ymchwil ym maes iechyd cyhoeddus. Erbyn diwedd y cwrs byr hwn bydd pawb ar y cwrs wedi meithrin ymwybyddiaeth o gysyniadau, a chymhwyso dulliau economeg iechyd ym maes iechyd cyhoeddus, yn gallu gwerthuso'n feirniadol arfarniad economaidd o ymyriad iechyd cyhoeddus, a theimlo'n hyderus wrth siarad am adenillion posib ar fuddsoddiad gan raglenni iechyd cyhoeddus yn y GIG a lleoliadau eraill fel ysgolion a gwaith.

Pwy fydd yn elwa o'r cwrs?

Mae wedi ei gynllunio i ddiwallu anghenion pobl sy'n dymuno meithrin ymwybyddiaeth o economeg iechyd cyhoeddus, p'un ai ydynt yn gweithio ym maes iechyd cyhoeddus yn y GIG, llywodraeth leol, y byd academiaidd, yn dilyn cwrs Meistr mewn Iechyd Cyhoeddus neu yn paratoi am ran A yr arholiad i fod yn aelod o'r UK Faculty of Public Health. Mae'r cwrs yr un mor ddefnyddiol i economegwyr iechyd sy'n symud o asesiadau technoleg iechyd traddodiadol o ymyriadau meddygol tuag at werthusiadau economaidd o ymyriadau iechyd cyhoeddus.

Bydd y cwrs yn cynnwys:

- **Egwyddorion economeg iechyd:** prinder, dewis, cost cyfle, y cysyniad o gyflenwad a galw, effeithlonrwydd technegol a dyrannol, y cyfaddawd rhwng effeithlonrwydd/ecwiti a'i berthnasedd i iechyd cyhoeddus, mathau o gostau (uniongyrchol, anuniongyrchol ac anniriaethol).
- **Systemau ariannu a darparu gofal iechyd:** economïau yn ôl y galw ac economïau'r farchnad, cymhwyso marchnadoedd i ofal iechyd, pam fod gofal iechyd yn wahanol i nwyddau a gwasanaethau eraill, peryglon moesol a meini prawf dewis anffafriol mewn yswiriant iechyd.
- **Dulliau a thechnegau gwerthuso economaidd:** dadansoddiad lleihau cost; dadansoddiad cost-effeithlonrwydd; dadansoddiad cost-ddefnyddioldeb (gan gynnwys cysyniad blwyddyn bywyd wedi ei haddasu'n ôl ansawdd [QALY]); ac, fel yr argymhellwyd gan Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE), dadansoddiad cost-ganlyniad a dadansoddiad cost-fuddiant wrth werthuso ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus; cymarebau cost effeithiolrwydd cynyddol (ICERs), troadau cost-effeithiolrwydd derbyniol (CEAC), 'bootstrapping' a dadansoddiad sensitifrwydd i ddelio ag ansicrwydd.
- **Gwerthuso economaidd ochr yn ochr â threialu ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus** (gyda rhai enghreifftiau).
- **Modelu economaidd o gostau a buddion ymyriadau iechyd cyhoeddus** (gyda rhai enghreifftiau); **costau a buddion gostyngol a'r goblygiadau i iechyd cyhoeddus; adenillion ar fuddsoddiad ym maes iechyd cyhoeddus.**
- **Yr heriau wrth ddefnyddio dulliau gwerthuso economaidd gydag ymyriadau ym maes iechyd cyhoeddus:** pwysigrwydd cyd-destun, ystyried allanoldebau, yr angen i ystyried ecwiti ac effeithiau gorlifo ar sectorau'r economi nad ydynt yn sectorau iechyd.
- **Blaenoriaethu gwasanaethau gofal iechyd:** swyddogaeth gwerthuso economaidd a phennu blaenoriaethau wrth wneud penderfyniadau am ofal iechyd; rhaglennu cyllidebau a dadansoddi ymylol i gefnogi penderfyniadau o ran buddsoddi a thynnu'n ôl o fuddsoddi.
- **Iechyd cyhoeddus fferyllol a swyddogaeth fferyllwyr y dyfodol o ran hybu iechyd.**
- **Ymgorffori tystiolaeth economaidd o gost-effeithlonrwydd mewn prosesau comisiynu lleol a pholisïau iechyd cyhoeddus.**